**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

**PWYLLGOR PENSIYNAU**

**PENSIONS COMMITTEE**

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**2:00pm, DYDD GWENER, 22 MAWRTH, 2013**

**2:00pm, FRIDAY, 22 MARCH, 2013**

Lleoliad / Location

**YSTAFELL GWYRFAI,**
**SWYDDFEYDD Y CYNGOR/COUNCIL OFFICES,**
**CAERNARFON**

gwynparrywilliams@gwynedd.gov.uk

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**Gwyn Parry Williams**

**(01286 679665)**

## PWYLLGOR PENSIYNAU
## PENSIONS COMMITTEE

### AELODAETH/MEMBERSHIP

**Plaid Cymru (3)**
Y Cynghorwyr / Councillors
Peredur Jenkins
Dafydd Meurig
W. Tudor Owen

**Annibynnol/Independent (2)**
Y Cynghorwyr/Councillors
Trevor Edwards
John Pughe Roberts

**Rhyddfrydwyr Democrataidd/Liberal Democrats (1)**
Y Cynghorydd/Councillor Stephen Churchman

**Llais Gwynedd (1)**
Y Cynghorydd/Councillor Peter Read

**Aelodau Cyfetholedig/Co-opted Members**

Y Cynghorydd/Councillor Margaret Lyon, Cynrychiolydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy /Conwy County Borough Council Representative

Y Cynghorydd/Councillor Tom Jones, Cynrychiolydd Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council Representative

**Aelodau Ex-officio/Ex-officio Members**

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor/Chairman and Vice-chairman of the Council

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 28 Medi 2012 fel rhai cywir. (copi yma – papur ***gwyn***)

**5. STIWARDIAETH Y GRONFA BENSIWN**

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Buddsoddi (copi yma – papur ***glas***)

**6. BUDDSODDIAD CYMDEITHASOL, AMGYLCHEDDOL A MOESEGOL**

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Buddsoddi (copi yma – papur **pinc**)

**7. DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS A STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL AR GYFER 2013/14**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid (copi yma – papur **melyn**)

**8. CYNLLUNIAU PENSIWN LLYWODRAETH LEOL CYMRU – GWEITHIO GYDA'N GILYDD**

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Buddsoddi (copi yma – papur **gwyrdd**)

**9. GYRFAOEDD CYMRU**

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Buddsoddi (copi yma – papur **lelog**)

**10. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 14, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma'n berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth ariannol am gwmni a bod ganddynt hawl i ddisgwyl y bydd y wybodaeth yn cael ei chadw'n gyfrinachol. Mae amseriad yn bwysig ac nid oes gofyn cyhoeddus i ddatgelu'r wybodaeth ar hyn o bryd. Mae'r budd cyhoeddus felly o blaid cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol am y tro.

## 11. BUDDSODDIAD EIDDO

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Buddsoddi (copi ar wahân i aelodau'r pwyllgor yn unig)

# PWYLLGOR PENSIYNAU, 28.09.12

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Peter Read (Cadeirydd).
Y Cynghorydd John Pughe Roberts (Is-gadeirydd).

Y Cynghorwyr Trevor Edwards, Peredur Jenkins, W.Tudor Owen a'r Cynghorydd Tom Jones (cynrychiolydd Cyngor Sir Ynys Môn)

**Swyddogion:-** Dilwyn Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi), Gareth Jones (Rheolwr Pensiynau) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Stephen Churchman, Selwyn Griffiths, Dafydd Meurig a'r Cynghorydd Margaret Lyon (cynrychiolydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)

**1. CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Peter Read yn Gadeirydd y Pwyllgor am 2012/13.**

**2. IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd John Pughe Roberts yn Is-gadeirydd y Pwyllgor am 2012/13.**

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**4. MATERION BRYS**

(Nid oedd y mater canlynol wedi ei gynnwys ar raglen y pwyllgor, ond cytunodd y Cadeirydd ei gynnwys dan Adran 100B (4)(b), Deddf Llywodraeth Leol 1972, oherwydd yr angen am weithrediad brys)

**Prosiect Cydweithio Cymru**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol y cyfrannwyd £5,000 eisoes tuag at gost y prosiect uchod. Erbyn hyn efallai na fydd y swm hwn yn ddigonol ac awgrymodd gyfrannu £2,500 yn ychwanegol os bydd angen i ddirwyn y prosiect i ben.

**PENDERFYNWYD cytuno i gyfrannu £2,500 yn ychwanegol os bydd angen i ddirwyn y prosiect hwn i ben.**

**5. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2012 fel rhai cywir.

**6. RHEOLAETH TRYSORLYS 2011/12**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid yn adrodd ar wir ganlyniadau gweithgaredd Rheolaeth Trysorlys y Cyngor yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, yn unol â gofynion Côd Ymarfer CIPFA. Cyfeiriodd yn benodol at y cefndir economaidd a'r gweithgarwch buddsoddi.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

**7. ASH WALES**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Buddsoddi y derbyniodd Prif Weithredwr y Cyngor neges e-bost gan Mark Isherwood AC ym Mehefin 2012 parthed adroddiad gan ASH Wales ar fuddsoddiadau cronfeydd pensiwn Gogledd Cymru yn y diwydiant tybaco. Derbyniwyd copi hefyd gan y Cynghorydd Margaret Lyon ar ran Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy.

Nododd bod gan y gronfa Ddatganiad o Egwyddorion Buddsoddi sy'n rhoddi fframwaith i fuddsoddiadau'r gronfa ac mae'n cynnwys materion cymdeithasol, amgylcheddol a moesegol. Mae hyn yn amlinellu'r cyfrifoldebau ar y gronfa bensiwn fel a ganlyn –
*"Gyda golwg ar fuddsoddiadau cymdeithasol cyfrifol, mae'r pwyllgor yn ystyriol o egwyddorion cyfreithiol sy'n seiliedig ar benderfyniadau'r llysoedd ac sy'n berthnasol i bob cynllun pensiwn. Yn benodol, nid oes hawl gan awdurdod gweinyddol i roddi diddordeb yr aelodau islaw gofynion cymdeithasol, amgylcheddol a moesegol. Perfformiad ariannol y gronfa gydag amrywiaeth priodol a bod yn ddarbodus, sydd bwysicaf".*

Trafodwyd y posibiliadau cyn casglu y byddai'n anodd sicrhau cytundeb ar faes penodol i'r gronfa beidio buddsoddi ynddo, gan bod angen cydymffurfio â'r egwyddor uchod a gan bod cymaint o fuddsoddiadau gallai rhai gysylltu â materion moesegol eraill, megis arfau, alcohol a.y.

Gofynnodd aelod am newid y gair "diddordeb" i "buddiannau" yn yr ail frawddeg o'r datganiad a chytunodd y pwyllgor â hynny.

**PENDERFYNWYD**
**a) Ymateb i Mark Isherwood AC yn unol â'r datganiad uchod a fyddai'n cynnwys newid y gair "diddordeb" i "buddiannau" yn yr ail frawddeg o'r datganiad.**
**b) Gofyn i'r Rheolwr Buddsoddi gyflawni ymchwil gyda golwg ar gyflwyno adroddiad i'r pwyllgor yn rhoddi manylion am ymarferion cronfeydd pensiwn eraill yn y maes hwn er mwyn i'r pwyllgor gael ystyried y mater ymhellach.**

**8. DATGANIAD O EGWYDDORION BUDDSODDI**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol ar y Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi diwygiedig.

Hysbysodd y Rheolwr Buddsoddi yr ymgynghorwyd yn ystod Gorffennaf ac Awst 2012 ar y fersiwn diwygiedig o'r Datganiad gyda'r partion â diddordeb a oedd yn cynnwys yr holl gyflogwyr yn y gronfa, rheolwyr buddsoddi a'r ymgynghorydd buddsoddi ac ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau. Yn wyneb hynny, argymhellodd i'r pwyllgor fabwysiadu'r Datganiad diwygiedig.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi diwygiedig.**

## 9. CYNHADLEDD YMDDIRIEDOLWYR LGPS

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol iddo ef a'r Cynghorwyr W. Tudor Owen a John P. Roberts fynychu'r gynhadledd uchod yn ystod mis Mehefin 2012.

Rhoddodd fanylion am y materion a drafodwyd yn y gynhadledd gan dynnu sylw penodol at y materion canlynol –

a) Opsiwn 50:50, lle gallai aelodau ddewis i gymryd hanner y buddiannau am hanner y gost.
b) Yr hyn y dylid ei roddi yn y trefniadau llywodraethu newydd gan awgrymu pedwar peth y dylai cyflogwyr cronfa fod â hawl iddynt sef –

- Cael strategaeth ariannu clir fel eu bod yn ymwybodol i lle yr anelir a pham, fel y gallent baratoi eu hunain mewn da bryd ar gyfer materion a ddeuai i'r amlwg.
- Bod yn ymwybodol o unrhyw risgiau a chostau y maent yn gyfrifol amdanynt mewn perthynas â chyflogwyr eraill yn y Gronfa
- Ni ddylent gael eu rhoddi'n agored i lefelau annerbyniol o risg.
- Dylent allu cael enillion buddsoddi da.

Mewn perthynas â (b) uchod, hysbysodd y Cyfarwyddwr mai un strategaeth buddiannau sydd gan Gronfa Gwynedd ac y dylid rhoddi ystyriaeth pellach i'r mater hwn efallai yng nghyswllt y gallu i wahaniaethu rhwng anghenion cyflogwyr ac y dylid codi hwn gyda'r actiwari wrth drafod y prisiad nesaf.

c) Deddfwriaeth ymuno'n awtomatig sydd ar ddod i rym. Nododd bod y ddeddfwriaeth fyddai'n ei wneud yn ofynnol i bob gweithiwr cymwys gael eu cofrestru'n awtomatig mewn cynllun pensiwn gweithle perthnasol, yn dod i rym ar 1 Hydref 2012 gyda dyddiad penodol i bob cyflogwr yn ddibynnol ar ei faint.

Hysbysodd y Pennaeth Cyllid bod llawer o waith gweinyddol ynghlwm â'r ddeddfwriaeth ac fe nododd bod staff y gronfa wedi bod yn cynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth ymysg cyflogwyr y gronfa er mwyn eu hannog i baratoi ar gyfer dygymod â'r gofynion.

ch) Dewisiadau amgen i fuddsoddi mewn bondiau ac ecwiti. Nododd bod Cronfa Bensiwn Glannau Merswy yn buddsoddi drwy eu rheolwyr buddsoddi ym mhrosiect GwyriAD yng Ngwynedd ac 'roedd o'r farn y dylai Cronfa Bensiwn Gwynedd fod wedi manteisio ar gyfle o'r fath. Gellid trafod y mater gyda Hymans Robertson.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 10. CYNHADLEDD BUDDSODDI'R LGC, 5-7 MEDI 2012 – "Chwilio'n Obeithiol am Dŵf"

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid iddo ef a'r Cynghorwyr Stephen Churchman a Trefor Edwards fynychu'r gynhadledd uchod yn y Celtic Manor, Casnewydd.

Rhoddodd fanylion am y prif faterion a drafodwyd yn y gynhadledd megis cytundebau fframwaith am wasanaeth actiwari, ymgynghorwyr buddsoddi a gwarchodwyr, dychweliadau ar ecwiti mewn marchnadoedd sy'n ymgodi, categoriau arbenigol o fuddsoddiadau mewn eiddo a chyfleon i gronfeydd llywodraeth leol lle mae gwerth cyfredol buddsoddiadau ar y fantolen yn tan-amcangyfrif eu potensial.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**11. FFIOEDD RHEOLWYR BUDDSODDI**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol y penodwyd Veritas yn reolwyr buddsoddi i gymryd lle Capital. Mewn perthynas â'r ffi perfformiad, yn dilyn asesiad o'r budd a'r anfanteision, 'roedd o'r farn na ddylid gweithredu'r ffi perfformiad yng nghyswllt y cytundeb hwn, ond yn hytrach dylid gweithredu ffioedd safonol ac iddo eisoes gytuno i weithredu ar y llinellau hyn.

**PENDERFYNWYD cadarnhau'r camau a gymerwyd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol.**

**12. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 14, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff hwn yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad cyntaf yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â materion ariannol y Cyngor ac fe allai ei ddatgelu ar hyn o bryd gael effaith niweidiol ar y gronfa. Credir bod y budd cyhoeddus o blaid peidio datgelu'r wybodaeth am y tro yn gorbwyso unrhyw fudd cyhoeddus o'i gyhoeddi. Unwaith y bydd y penderfyniad wedi ei wneud a'i weithredu, bydd modd datgelu'r wybodaeth. Mae'r ail adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am faterion ariannol yr awdurdod a chyflenwr a byddai ei ddatgelu'n debygol o niweidio'r berthynas fasnachol rhwng y ddau barti ynghyd â chreu anfantais iddynt mewn trafodaethau i'r dyfodol. O'r herwydd credir bod y budd cyhoeddus o blaid peidio â datgelu'r wybodaeth.**

**13. BUDDSODDIAD EIDDO**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol ymhellach i gyfarfod chwarterol o Banel Buddsoddi'r Gronfa Bensiwn a gynhaliwyd yng Nghaernarfon ar 26 Gorffennaf 2012.

**PENDERFYNWYD**
**a) Cadarnhau cyflwyno rhybudd i UBS yn eu cyfarwyddo i adbrynu buddsoddiad Gwynedd yn unol â barn y Panel Buddsoddi.**
**b) Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, mewn ymgynghoriad â'r Panel Buddsoddi, i benderfynu ar y camau nesaf.**

**14. UWCHRADDIO MEDDALWEDD GWEINYDDU PENSIYNAU**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid bod angen uwchraddio system gweinyddu gyfrifiadurol presennol yr Uned Gweinyddu Pensiynau. Er mwyn gwynebu newidiadau arwyddocaol Diwygiadau Pensiwn 2012 ac Adolygiad Hutton, ac i weithredu sianelau cyfathrebu we-seiliedig integredig effeithiol gyda'r rhanddeiliaid sef cyflogwyr, staff, pensiynwyr a.y., mae angen system sy'n defnyddio'r dechnoleg fwyaf diweddar gydag ymarferoldeb i greu effeithlonrwydd i staff pensiynau.

Nododd y gweinyddir Cronfa Bensiwn Gwynedd ar ran 40 o gyflogwyr ac aelodaeth sy'n cynnwys aelodau gweithredol, gohiriedig a phensiynwyr. Ers Ebrill 2005, er i'r aelodaeth weithredol aros yn weddol gyson, mae'r cyfanswm wedi cynyddu'n sylweddol ac mae'n fwy hanfodol nag erioed i'r Uned Bensiynau gynnal system weinyddol gadarn ac effeithiol.

Rhoddodd fanylion am y costau ychwanegol.

**PENDERFYNWYD cytuno i ariannu cost yr uwchraddio ac awdurdodi codiad ym mhris y trwyddedau blynyddol yn unol â'r manylion a gyflwynwyd yn yr adroddiad i'r pwyllgor.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 3.00pm

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| **DYDDIAD** | **22 MAWRTH 2013** |
| **PWRPAS** | **YSTYRIED CANLYNIADAU AELODAETH PRAWF LAPFF A PHENDERFYNU AR AELODAETH YN Y DYFODOL**<br><br>**GOFYN I'R PWYLLGOR CYMERADWYO'R DATGANIAD O GYDYMFFURFIAD GYDA COD STIWARDIAETH** |
| **TEITL** | **STIWARDIAETH Y GRONFA BENSIWN** |
| **AWDUR** | **CAROLINE ROBERTS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

## 1. Cefndir

Mewn cyfarfod y Pwyllgor Pensiynau ar 25 Tachwedd 2011, ystyriwyd cyflwyniad o'r Cod Stiwardiaeth a chytunwyd a'r egwyddor o gyhoeddi Datganiad o Gydymffurfiad gyda'r Cod. Fel rhan o'r datganiad hwn mae angen esbonio sut mae'r Gronfa Bensiwn yn cyflawni ei dyletswyddau stiwardiaeth.

Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r Gronfa Bensiwn ymuno a'r Local Authority Pension Fund Forum (LAPFF) er mwyn cryfhau'r trefniadau stiwardiaeth a chymryd rhan mewn gweithrediadau gan LAPFF ar ran ei haelodau ac felly cael dylanwad mwy fel grŵp na gweithio fel cronfeydd unigol. Cytunodd y Pwyllgor ar aelodaeth ar sail prawf gydag adroddiad yn ôl erbyn Ebrill 2013.

Mae adrodd i'r Pwyllgor ar ymrwymiad y rheolwyr buddsoddi yn eu cwmnïau buddsoddi yn parhau ar sail eithriad.

Fel adroddwyd i'r Pwyllgor hwn yn flaenorol mae'r LAPFF yn bodoli er mwyn hyrwyddo diddordebau buddsoddi cronfeydd pensiwn awdurdodau lleol ac er mwyn uchafu eu dylanwad fel cyfranddalwyr wrth hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol a llywodraeth gorfforaethol yn y cwmnïau maent yn eu buddsoddi ynddynt. Mae LAPFF yn dod a nifer o gronfeydd pensiwn awdurdodau lleol at ei gilydd sydd yn rhoi cyfle i drafod materion buddsoddi ac arwaith cyfranddalwyr. Mae gan y dylanwad a enillir wrth i'r cronfeydd gweithio gyda'i gilydd fel cyfranddalwyr ar faterion pryderus cyffredin potensial mawr mewn perthynas i gwmnïau lle maent yn buddsoddi. Mae aelodaeth ar gael i bob cronfa bensiwn llywodraeth leol.

Ar hyn o bryd mae 55 cronfa pensiwn awdurdodau lleol yn aelodau o LAPFF gan gynnwys rhai o'r cronfeydd mwyaf yn y DU. £8,460 oedd y tanysgrifiad ar gyfer 2012/13.

## 2. Buddion Aelodaeth

Mae aelodaeth yn cynnwys mynediad at yr adnoddau canlynol:

- Cynhadledd flynyddol
- Safle We aelodau LAPFF
- Cyfarfodydd chwarterol busnes i aelodau
- Adroddiad chwarterol ymrwymiad
- Cylchlythyr Chwarterol
- Polisïau model
- Ymatebion i ddogfennau ymgynghori

Mae LAPFF yn cymryd rhan yn weithgar er mwyn ceisio dylanwadu ar gwmnïau ar ran eu cyfranddalwyr Cronfeydd Pensiwn Awdurdodau Lleol. Achosion proffil uchel yn ddiweddar yw Marks and Spencer, Newscorp a Banc Barclays.

Cynhelir y gynhadledd flynyddol ym mis Tachwedd / Rhagfyr a mynychodd Caroline Roberts. Thema'r gynhadledd oedd Diwygiad Marchnad - Beth yw’r Cyfrifoldebau Cyfranddalwyr? Mynychodd dros 160 cynrychiolwyr a dros 30 Cronfa Bensiwn yn ogystal â chynrychiolwyr o reolwyr buddsoddi. Denodd siaradwyr proffil uchel a rhoddodd cyfle i ddysgu gan gronfeydd eraill. Cynhwysir crynodeb byr o’r digwyddiad fel Atodiad A i’r adroddiad hon.

Mae rhai cronfeydd pensiwn mawr yn aelodau ac yn cymryd rhan weithgar yn y fforwm. Mae hyn galluogi i gronfeydd eraill elwa o’u profiad ac arbenigedd yn ogystal ag cyfrannu eu hunain. Mae gwaith cydweithio da rhwng yr wyth cronfa bensiwn Cymru ar hyn o bryd ond mae aelodaeth y fforwm hwn yn ymestyn cydweithio dros y DU ac yn canolbwyntio ar faterion dylanwad cyfranddalwyr.

Mae’r cyfarfodydd chwarterol yn cynnwys unrhyw faterion cyfredol mewn rheolaeth buddsoddiadau a llywodraethu yn ogystal â phapurau ymgynghori ac ymatebion iddynt. Cylchredir ymatebion drafft i ymgynghoriadau i aelodau ar gyfer sylwadau cyn cyflwyniad. Anogir bod aelod i ymateb yn unigol hefyd

Mae dylanwad LAPFF yn sylweddol uwch na’r cronfeydd pensiwn sydd yn aelodau yn gweithio yn annibynnol ac felly yn cael cymaint mwy o ddylanwad ac effaith ar y cwmnïau y buddsoddir ynddynt. Parodrwydd cwmnïau proffil uchel sydd wedi cael eu beirniadu gan LAPFF yn y gorffennol i weithio efo nhw ar lywodraethu corfforaethol a chyfrifoldeb cymdeithasol wrth symud ymlaen.

O ganlyniad, credwn fod tal aelodaeth flynyddol LAPFF (£8,460) yn darparu gwerth am arian i’r Gronfa, wrth wneud gwahaniaeth ar faterion buddsoddi’n gyfrifol.

## 3. Datganiad o Gydymffurfiad gyda'r Cod Stiwardiaeth

Atodir Datganiad o Gydymffurfiad gyda'r Cod Stiwardiaeth fel Atodiad A. Mae'r Datganiad yn esbonio sut mae'r Gronfa Bensiwn yn cydymffurfio gyda gofynion y Cod. Mae'r Datganiad wedi cael ei ddrafftio ar sail bod aelodaeth LAPFF yn parhau.

Yn dilyn cymeradwyaeth y Datganiad o Gydymffurfio cyhoeddir ar safle we'r Gronfa Bensiwn ac ar safle we'r Financial Reporting Council.

## 4. Argymhellion

**(i)** Mae aelodaeth LAPFF yn galluogi archwiliad rheolaeth buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn ac y rhoi mecanwaith priodol i ddysgu gan gronfeydd eraill a dylanwadu ar lywodraethu corfforaethol a chyfrifoldebau cymdeithasol mewn cwmnïau y buddsoddir ynddynt. **Argymhellir** bod y Gronfa Bensiwn yn parhau gyda'i aelodaeth LAPFF.

**(ii)** **Argymhellir** bod y Datganiad o Gydymffurfiad gyda'r Cod Stiwardiaeth yn cael ei gymeradwyo a'i gyhoeddi.

**ATODIAD A**

**Cronfa Bensiwn Gwynedd**
**Datganiad Cod Stiwardiaeth**

**Egwyddor 1 - Dylai buddsoddwyr sefydliadol datgan yn gyhoeddus eu polisi ar sut y byddan gyflawni eu cyfrifoldebau stiwardiaeth.**

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cymryd ei chyfrifoldebau fel cyfranddaliwr o ddifri. Mae'n ceisio cadw at y Cod Stiwardiaeth ac yn annog ei rheolwyr buddsoddi a apwyntiwyd i'w gwneud hefyd. Gweler stiwardiaeth fel rhan o'r cyfrifoldebau perchnogaeth rhandaliadau ac felly rhan gyfannol o'r strategaeth buddsoddi.

Yn ymarferol mae'n bolisi'r gronfa i weithredu'r Cod trwy'r trefniadau gyda'i rheolwyr buddsoddi a thrwy aelodaeth o'r Local Authority Pension Fund Forum.

**Egwyddor 2 – Dylai buddsoddwyr sefydliadol meddu ar bolisi cadarn ar gyfer rheoli gwrthdaro diddordebau mewn perthynas i stiwardiaeth a'r dylai'r polisi hwn yn cael ei datgan yn gyhoeddus.**

Mae'r gronfa yn annog ei rheolwyr buddsoddi i feddu ar bolisïau sydd yn cyfarch gwrthdari ddiddordeb dichonol. Trafodir y rheiny cyn penodi rheolwr ac adolygir fel rhan o'r broses safonol monitro rheolwyr.

Mewn perthynas i wrthdaro diddordebau o fewn y Gronfa, mae aelodau'r Pwyllgor Pensiynau yn gorfod datgan diddordebau cyn cyfarfodydd Pwyllgor.

**Egwyddor 3 - Dylai buddsoddwyr sefydliadol monitro eu cwmnïau buddsoddi.**

Datganolir cyfrifoldeb rheoli ein buddsoddiadau o ddydd i ddydd i'r rheolwyr buddsoddi a apwyntiwyd ac mae'r Gronfa yn disgwyl iddynt fonitro cwmnïau, ymyrryd pan yn briodol, ac adrodd yn ôl yn gyson ar y gweithgareddau. Derbynnir adroddiadau ar bleidleisio ac ymrwymiad yn chwarterol.

Yn ogystal mae'r Gronfa yn derbyn 'rhybuddion' gan y Local Authority Pension Fund Forum, sydd yn amlygu materion llywodraethu corfforaethol pryderus ac maent yn cael ystyried priodol.

**Egwyddor 4 - Dylai buddsoddwyr sefydliadol sefydlu arweiniad clir ar bryd a sut y bydden uwchraddio eu gweithgareddau fel modd amddiffyn a gwella gwerth cyfranddalwyr.**

Fel amlygwyd uchod, mae cyfrifoldeb ar gyfer rhyngweithiad dydd i ddydd gyda chwmnïau yn cael ei dirprwyo i reolwyr asedau'r Gronfa, gan gynnwys uwchraddio'r ymrwymiad fel bo angen. Disgwylir iddynt ddatgan eu canllawiau yn eu datganiad cydymffurfio gyda'r Cod Stiwardiaeth eu hunain.

Er hynny, ar adegau, gallai'r Gronfa cymryd rhan mewn uwchraddio materion, yn bennaf trwy weithrediadau ymgysylltu gan y Local Authority Pension Fund Forum.

**Egwyddor 5 – Dylai buddsoddwyr sefydliadol bod yn fodlon i weithredu ar y cyd gyda buddsoddwyr eraill pan yn briodol.**

Mae'r Gronfa yn ceisio cydweithio gyda chyfranddalwyr sefydliadol er mwyn uchafu'i dylanwad ar gwmnïau unigol. Mae'r Gronfa yn ceisio gwneud hyn trwy aelodaeth y Local Authority Pension Fund Forum, sydd yn ymgysylltu gyda chwmnïau ar faterion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu ar ran ei aelodau.

**Egwyddor 6 - Dylai buddsoddwyr sefydliadol meddu ar bolisi clir ar gyfer pleidleisio a datgelu gweithgareddau pleidleisio.**

Mewn perthynas i bleidleisio cyfranddalwyr, mae'r Gronfa yn ceisio defnyddio pleidleisiau yn gysylltiedig â'i daliadau ecwiti DU ac i bleidleisio mewn marchnadoedd tramor pan yn ymarferol.

Mae cyfrifoldeb dros ddefnyddio hawliau pleidleisio wedi cael ei datganoli i'r rheolwyr ased a apwyntiwyd y gronfa ac mae hyn yn cynnwys ystyriaeth esboniadau'r cwmni ynglŷn â chydymffurfio a'r Cod Llywodraethu Corfforaethol.

Derbynnir adroddiadau cyson gan reolwyr yr asedau ar sut mae pleidleisiau wedi cael eu defnyddio a gellir trafod materion dadleuol mewn cyfarfodydd y panel.

Nid yw'r Gronfa yn datgelu unrhyw ddata pleidleisio ar hyn o bryd.

**Egwyddor 7 – Dylai buddsoddwyr sefydliadol adrodd yn gyson ar eu gweithgareddau stiwardiaeth a phleidleisio.**

Mae'r Gronfa yn adrodd yn flynyddol ar weithgareddau stiwardiaeth mewn adran benodol ar "Buddsoddiad Cyfrifol" yn ei adroddiad blynyddol.

**ATODIAD B**

## 17$^{EG}$ CYNHADLEDD FLYNYDDOL LAPFF
## DIWYGIAD MARCHNAD
## BETH YW CYFRIFOLDEBAU CYFRANDDALWYR?

Dechreuodd diwrnod cyntaf cynhadledd LAPFF eleni gyda chyflwyniad gan Robert Swannell, cadeirydd Marks & Spencer. Ers ymrwymiad proffil uchel LAPFF gyda'r cwmni yn 2009, mae'r Fforwm wedi datblygu perthynas da gyda'r cwmni, ac mae Robert wedi chwarae rhan allweddol yn y broses. Siaradodd am safon uchel agwedd LAPFF at ymrwymiad, sydd yn ei farn o yn cyd-fynd gydag ysbryd y Kay Review. Siaradodd hefyd am y Cynllun A enwog M&S, a sut mae cynaladwyedd yn gwneud synnwyr economaidd cymaint â synnwyr moesol a moesegol.

Yn y sesiwn nesaf, trafododd y cyn rheolwr gyfarwyddwr Greggs Sir Michael Darrington, Deborah Gilshan o Railpen ac Ashley Hamilton o PIRC y pryder llywodraethol parhaol sef tal gweithredwyr. Roedd cydsyniad clir bod tal gweithredwyr yn rhy cymhleth a rhy uchel a chwestiynodd gwerth cynlluniau cymhelliant.

Yn dilyn y toriad, roedd y sylw yn troi at y 'Shareholder Spring' diweddar, gyda chyflwyniadau gan Helen Wildsmith o'r CCLA, Daniel Summerfield o USS, Robert Talbut o Royal London ac aelod gweithredol LAPFF Peter Brayshaw. Roedd gan y panel barnau cymysg ar os yw newid sylfaenol mewn ymddygiad buddsoddwyr wedi bod, ond roedd awydd clir i adeiladu ar y tymor AGM eleni. Disgwylir gweld rhagor o weithrediadau cyfranddalwyr yn 2013!

Cyn cinio siaradodd Jim O'Loughlin ynglŷn â'r adroddiad newydd gan y Fforwm sef 'People and Investment Value'. Bwriad yr adroddiad yw symud trafodaethau buddsoddwyr oddi ar ffocws syml ar daliadau perfformiad i gyfarwyddwyr i ystyriaeth sut mae cwmnïau yn cael y gorau o'u holl weithwyr - er budd pawb.

Dros y flwyddyn a hanner diwethaf mae LAPFF wedi gweithio'n agos gyda nifer o gwmnïau cyfryngau cofrestredig ynglŷn â'u safonau a moeseg, gyda'r ffocws mwyaf ar News Corp. Hwn oedd pwnc y sesiwn cyntaf ar ôl cinio. Siaradodd Julie Tanner o Christian Brothers Investment Services, sydd wedi cofrestru cynnig ar y cyd gyda'r Forum yn cyfarfod blynyddol cyffredinol 2012 News Corp, ynglyn a'i phrofiad diweddar o ymrwymiad. Rhestrodd cadeirydd LAPFF, Ian Greenwood y gwaith diweddar y Forum gyda News Corp, a siaradodd Patrick Daniels o Robbins Geller Rudman and Dowd ynglyn a rhai o'r heriau gorffennol yn erbyn y wasg yn yr UDA, a sut roedd News Corp yn cymryd safle yn erbyn ymgyfreithiad cyfranddalwyr.

Yn dilyn y toriad pnawn siaradodd Tim Bush o PIRC, Cormac Butler o Ardmore Derivatives a Natasha Landell-Mills o USS ynglŷn â materion enw da, moesegol, a chyfrifo'r banciau. Rybuddiodd yr holl siaradwyr am yr effaith niweidiol IFRS ar fanciau yn y DU ac Iwerddon a sut mae hyn wedi cuddio maint eu colledion. Er hynn roedd hi'n hollol glir bod y bank canolog Gwyddelig a'r Bank of England wedi adnabod y broblem.

Hefyd, mae'n edrych yn debyg y bydd archwilwyr y banciau a methodd yn cael eu herio yn y dyfodol.

Ar ddiwedd y dydd cyflwynodd Bob Holloway from the Department for Communities and Local Government (DCLG) diweddariad ar yr LGPS gyda sesiwn holi ac ymateb bywiog wedyn.

Dechreuodd bore dydd Gwener gyda thrafodaeth ar sut mae cronfeydd pensiwn awdurdodau lleol yn gallu cyfrannu at adferiad economaidd y DU gyda chyflwyniadau gan Paul Hackett o'r Smith Institute, Cynghorydd Kieran Quinn, Cadeirydd Greater Manchester Pension Fund ar brosiect tai Manceinion a Luke Fletcher o Bates Wells and Braithwaite ar faterion cyfreithiol. Pwysleisiodd yr holl siaradwyr bod angen i'r Gronfa Bensiwn asesu'r prosiect mewn termau risg a dychweliad buddsoddi yn hytrach na'i effaith cymdeithasol. Cafwyd esboniad o'r canllaw 'ethical tie-breaker', lle bod dau brosiect yn cael eu hasesu gyda'r un risg a dychweliad a dyna pryd gellir defnyddio materion moesegol neu leol i wneud penderfyniad. Nodwyd nad yw'n rôl y Gronfa Bensiwn i chwilio am brosiectau ond i asesu unrhyw gynigion buddsoddi a chyflwynir.

Cyflwynwyd sgwrs ddiddorol iawn gan Michael Woodford ar ei brofiad fel Prif Swyddog Gweithredol yn Olympus a'i diswyddiad ar ôl darganfod twyll difrifol o fewn y cwmni gyda gwerth amcangyfrif o $1.7billion dros ugain mlynedd, gan gynnwys deliadau gyda'r syndicâd trosedd Yakuza. Nad oedd yr amser a glustnodwyd yn ddigonol i ddweud yr holl hanes ond roedd o ar gael i arwyddo copïau o'i llyfr newydd 'Exposure' sydd yn cynnwys yr holl hanes!

Y sesiwn olaf oedd cyflwyniad gan John Kay ar y Kay review a oedd yn canolbwyntio ar fydd a hyder mewn cwmnïau buddsoddir ynddynt yn ogystal â chymhelliannau ar gyfer perfformiad da. Canolbwyntiodd trafodaeth y panel dilynol rhwng Amra Balic o BlackRock, Mark Fawcett o NEST a Janet Williamson o'r TUC ar berthnasau rhwng buddsoddwyr a'i rheolwyr buddsoddi mewn perthynas â stiwardiaeth a ddaeth i'r casgliad bod y buddsoddwyr a'r rheolwr angen gwella ei gwaith yn y maes hwn.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| **DYDDIAD** | **22 MAWRTH 2013** |
| **PWRPAS** | **YSTYRIED POLISI'R GRONFA BENSIWN YNGLŶN Â BUDDSODDI'N FOESEGOL** |
| **TEITL** | **BUDDSODDIAD CYMDEITHASOL, AMGYLCHEDDOL A MOESEGOL** |
| **AWDUR** | **CAROLINE ROBERTS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

## 1. Cefndir

Mewn cyfarfod y Pwyllgor Pensiynau ar 28 Medi 2012, ystyriwyd adroddiad ar bolisi buddsoddi yn benodol mewn cysylltiad â'r diwydiant tybaco. Yn dilyn trafod yr eitem gofynnodd yr aelodau am ymchwil er mwyn canfod sut mae cronfeydd pensiwn eraill yn delio gyda buddsoddi moesegol ac adrodd yn ôl i'r pwyllgor hwn.

Mae gofyn i bob Cronfa Bensiwn Llywodraeth Leol darparu Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi sy'n cydymffurfio gyda'r Local Government Pension Scheme (Management and Investment of Funds) Regulation 2009 ac mae'n hanfodol cynnwys 'i ba raddau rhoddir ystyriaeth i ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol neu foesegol wrth ddewis, cadw neu werthu buddsoddiadau'.

## 2. Asesiad a Ymgymerwyd

Cafwyd gwybodaeth oddi ar safleoedd we'r cronfeydd mawr yn Lloegr a gofynnwyd am wybodaeth gan y saith cronfa arall yng Nghymru ar eu hegwyddorion ynglŷn ag ystyriaethau cymdeithasol, amgylcheddol a moesegol pan fuddsoddir.

Yn ogystal, ym Mehefin 2011 penderfynodd y Local Authority Pension Fund Forum (LAPFF), a byddai'n ddefnyddiol cael templed Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi (DEB) ar lywodraethu corfforaethol at ddefnydd cronfeydd sydd yn aelodau. Cytunodd y pwyllgor gweithredol a datganodd y dylai'r esiampl yn cynnwys materion amgylcheddol a cymdeithasol hefyd. Fel rhan o'r gwaith hwn ymgymerwyd arolwg o'r DEB aelodau'r LAPFF a chronfeydd pensiwn byd-eang sydd yn weithgar mewn ystyried materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ACLl) er mwyn adnabod ymarfer gorau.

## 3. Casgliad

Mae’r pwyslais ar faterion ACLl yn amrywio o gronfa i gronfa gyda rhai efo ymagwedd eang ac eraill gydag ystyriaethau mwy manwl. Ni ddarganfuwyd unrhyw dystiolaeth i awgrymu y byddai unrhyw gronfa yn eithrio math penodol o fuddsoddiad ar sail ACLl. Pan ddatgelir manylion pellach ar y polisi, mae cronfeydd yn tueddu i bwysleisio’r flaenoriaeth rhoddir i wneud dychweliadau buddsoddi hir-dymor, ond fod ymgysylltu a gweithredu gyda’r cwmnïau er mwyn gwella ACLl yn hanfodol. Mae’r cyfrifoldeb hwn fel arfer yn cael ei ddirprwyo i’r rheolwyr buddsoddi sydd wedi’u comisiynu gan y gronfa.

## 4. Argymhelliad

Adolygir Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi y Gronfa yn 2014 yn dilyn cwblhad y prisiad actiwarïaid ar 31 Mawrth 2013. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried egwyddorion ACLl a’r defnydd priodol o dempled LAPFF ar gyfer Ystyriaethau Cymdeithasol, Amgylcheddol a Moesegol.

**Argymhellir** cadw’r Ystyriaethau Cymdeithasol, Amgylcheddol a Moesegol cyfredol, gweler y copi mewn Atodiad A, tan yr adolygiad llawn o’r Datganiad o’r Egwyddorion Buddsoddi yn 2014.

**ATODIAD A**

**DETHOLIAD O'R DATGANIAD O'R EGWYDDORION BUDDSODDI A MABWYSIADWYD 28 MEDI 2012**

## 6.0 Cymryd i ystyriaeth faterion Cymdeithasol, Amgylcheddol a Moesegol

6.1 Gyda golwg ar fuddsoddiadau cymdeithasol cyfrifol, mae'r Pwyllgor yn ystyriol o egwyddorion cyfreithiol sydd yn seiliedig ar benderfyniadau'r llysoedd ac sy'n berthnasol i bob cynllun pensiwn. Yn benodol nid oes hawl gan awdurdod gweinyddol i roddi buddion yr aelodau islaw gofynion cymdeithasol, amgylcheddol a moesegol. Perfformiad ariannol y Gronfa gydag amrywiaeth priodol a bod yn ddarbodus, sydd bwysicaf.

6.2 Mae'r Pwyllgor wedi ystyried i ba raddau y dylid cymryd ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol a moesegol i ystyriaeth wrth ddewis, cadw ac wrth werthu buddsoddiadau. Maent hefyd yn cytuno bod y ffactorau yma'n gallu dylanwadu ar yr enillion a geir ar fuddsoddiadau.

6.3 Mae'r Pwyllgor wedi dangos ei ymrwymiad at y Cod Stiwardiaeth gafodd ei gyhoeddi gan y Financial Reporting Council yn 2010. Nod y Cod yw gwella ansawdd yr ymrwymiad rhwng buddsoddwyr sefydliadol a chwmnïau er mwyn cynorthwyo gwellhad mewn dychweliadau tymor hir i gyfranddalwyr a gweithrediad effeithiol cyfrifoldebau llywodraethu. Mae'r Cod yn gosod ymarfer da ar gyfer ymgysylltiad gyda chwmnïau a buddsoddir ynddynt.

6.4 Mae'r Gronfa yn aelod o'r Local Authority Pension Fund Forum (LAPFF) sydd yn bodoli er mwyn hyrwyddo diddordebau buddsoddi cronfeydd pensiwn awdurdodau lleol ac i uchafu ei dylanwad fel cyfranddalwyr wrth hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol a llywodraethu corfforaethol yn y cwmni y maent yn buddsoddi ynddynt. Mae'r LAPFF yn dod a nifer o gronfeydd pensiwn awdurdodau lleol at ei gilydd sydd yn rhoi cyfle i drafod materion buddsoddi a gweithrediad cyfranddalwyr. Mae gan y dylanwad a enillir trwy gydweithrediad y cronfeydd ar bryderon cyffredin potensial sylweddol mewn perthynas â chwmnïau y maent yn buddsoddi ynddynt. Gellir defnyddio'r dylanwad yma er mwyn mynd i'r afael a materion cymdeithasol, amgylcheddol a moesegol o fewn y cwmnïau a buddsoddir ynddynt.

6.5 Mae'r Pwyllgor yn disgwyl i fwrdd y cwmnïau mae'r Gronfa yn buddsoddi ynddynt, roi ystyriaeth i faterion cymdeithasol, amgylcheddol a moesegol a drwy hynny gynyddu budd tymor hir y cyfranddalwyr. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl i gyfarwyddwyr cwmni roi ystyriaeth i fudd tymor hir y cyfranddalwyr wrth reoli materion busnes y cwmni.

6.6 Mae'r rheolwyr buddsoddi wedi paratoi datganiadau o bolisi buddsoddi sy'n cymryd i ystyriaeth materion cymdeithasol, amgylcheddol a moesegol sy'n gyson gyda'r amcanion a amlinellir ym mharagraff 6.3 uchod. Mae'r Pwyllgor yn

disgwyl i’r rheolwyr buddsoddi weithredu’n unol a’u polisïau penodol ar fuddsoddiadau cymdeithasol cyfrifol.

6.7 Mae’r Pwyllgor yn credu bod y safiad yma yn gyson gydag amcanion tymor hir y cynllun.

6.8 Yn flynyddol bydd y Pwyllgor yn bodloni eu hunain bod y rheolwyr buddsoddi yn dilyn y polisi yma.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| **DYDDIAD** | **22 MAWRTH 2013** |
| **PWRPAS** | **GOFYN I'R PWYLLGOR PENSIYNAU FABWYSIADU'R STRATEGAETHAU** |
| **TEITL** | **DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS A STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL AR GYFER 2013/14** |
| **AWDUR** | **DAFYDD L EDWARDS - PENNAETH CYLLID** |

## 1. STRATEGAETH FUDDSODDI Y GRONFA BENSIWN

Yn unol â Chyfarwyddyd Statudol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol, mae'n ofynnol i'r Cyngor, fel rhan o'i swyddogaeth wrth reoli'r trysorlys, i baratoi Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol. Fel ymarfer da, ystyrir y dylai Cronfa Bensiwn Gwynedd (y "Gronfa") fabwysiadu Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (DSRhT) Cyngor Gwynedd am 2013/14, fel ei addaswyd i bwrpas y Gronfa Bensiwn (sy'n amgaeedig fel Atodiad A). Cafodd DSRhT Cyngor Gwynedd am 2013/14 ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 28 Chwefror 2013.

## 2. CANLLAWIAU CIPFA

Bydd y Gronfa yn rhoi ystyriaeth i adolygiad 2009 o "CIPFA Treasury Management in Public Services Code of Practice and Cross Sectoral Guidance Notes".

## 3. LLIF ARIAN Y GRONFA BENSIWN

Mae mewnlif net o arian i'r Gronfa gan ei haelodau, felly mewn unrhyw fis, mae'r incwm o gyfraniadau a throsglwyddiadau mewnol yn sylweddol uwch na'r hyn a delir allan mewn pensiynau, trosglwyddiadau allanol â chostau. Pan fydd lefel yr arian dros ben yn sylweddol, bydd arian yn cael ei drosglwyddo i un neu fwy o reolwyr buddsoddi y Gronfa. Fel rheol bydd tua £5 miliwn yn cael ei gadw ar gyfer dibenion llif arian, megis talu pensiynau ac i ariannu'r galw am arian gan y cronfeydd ecwiti preifat. Yn y gorffennol fodd bynnag, oherwydd ymrwymiadau gwybyddus, ar rai adegau mae'r arian sy'n cael ei ddal yng nghyfrifon banc y Gronfa gyda Chyngor Gwynedd wedi bod dros £20 miliwn.

## 4. CRONNI ER MWYN UCHAFU DYCHWELIADAU

Ar hyn o bryd mae holl arian dros ben y Gronfa yn cael ei gronni gyda balansau ariannol Cyngor Gwynedd ac yn cael ei fuddsoddi gyda gwrthbartion yn unol â Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys Cyngor Gwynedd. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae Cyngor Gwynedd yn talu llog i'r Gronfa Bensiwn ar sail balansau dyddiol y Gronfa dros y flwyddyn. Gall hyn gario ymlaen os bydd y Pwyllgor Pensiynau yn dymuno i arian dros ben y gronfa bensiwn gael ei gronni efo balansau ariannol y Cyngor. Mae'n amlwg fod cronni yn caniatáu manteision maint, ac o ganlyniad yn denu llog uwch, isafu costau banc, ac yn osgoi dyblygu gwaith o fewn y Cyngor.

## 5. GWRTHBARTION (Banciau)

Diweddarwyd y rhestr o wrthbartion **(Atodiad C)** er mwyn adlewyrchu'r argymhellion diweddaraf. Mae uchafswm cyfnod y benthyciad ar gyfer yr holl sefydliadau wedi'i godi o 1 flwyddyn i fyny i 2 flynedd er mwyn adlewyrchu'r argymhellion yma. Nodir y swm ynghyd â'r hyd uchaf ar gyfer buddsoddiadau, er cyfyngir at flwyddyn neu llai ar hyn o bryd, yn dibynnu ar statws bob sefydliad.

## 6. SGÔP

Ni fydd y strategaeth arfaethedig yn delio gyda'r arian sy'n cael ei ddal gan reolwyr buddsoddi y Gronfa ar gyfer setliadau.

## 7. ARGYMHELLION

7.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Pensiynau gymeradwyo'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Strategaeth Buddsoddi Blynyddol atodol am 2013/14, fel ei addaswyd i bwrpas y Gronfa Bensiwn (Atodiad A), a nodir y rhestr o wrthbartion cyfredol a ddangosir yn Atodiad C.

7.2 Gofynnir hefyd i'r Pwyllgor Pensiynau wneud cais i'r Cyngor (er nad yw'n gorff ar wahân) i ganiatáu i arian dros ben y Gronfa Bensiwn barhau i gael ei gronni gyda llif-arian cyffredinol y Cyngor o 1 Ebrill 2013 ymlaen.

**ATODIAD A**

## DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS A'R STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL 2013/14 I 2015/16

### 1. Cefndir

1.1 Mae Cod Ymarfer CIPFA ar gyfer Rheolaeth Trysorlys mewn Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Cod Darbodus yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol bennu'r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys a Dangosyddion Darbodus yn flynyddol. Mae'r TMSS hefyd yn cynnwys y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol (AIS), sy'n ofynnol yng Nghanllaw Buddsoddi Llywodraeth Cymru.

1.2 Yn unol â gofynion y Cod Darbodus, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cod Rheolaeth Trysorlys CIPFA mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn ar 3 Mawrth, 2011.

1.3 Diben y Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys hwn felly yw cymeradwyo:

- Y Strategaeth Rheolaeth Trysorlys ar gyfer 2013/14;
- Y Strategaeth Fuddsoddi ar gyfer 2013/14;

1.4 Mae'r Awdurdod wedi benthyca a/neu fuddsoddi symiau sylweddol o arian ac felly'n agored iawn i risgiau ariannol posib, gan gynnwys colli'r arian a fuddsoddwyd ac effaith cyfraddau llog newidiol. Felly, mae llwyddiant wrth adnabod, monitro a rheoli risgiau yn elfen greiddiol o strategaeth rheolaeth trysorlys y Cyngor.

### 2. Gofyn Cyllido Cyfalaf - Ddim yn berthnasol i'r Gronfa Bensiwn

### 3. Rhagolygon Cyfraddau Llog

3.1 Mae rhagolygon Arlingclose o ran cyfraddau llog yn parhau â'r thema a fu dros y blynyddoedd diwethaf, sef y bydd cyfraddau llog yn aros yn is am gyfnod hirach hyd yn oed. Yn wir, rhagwelir y bydd cyfraddau llog swyddogol y DU yn parhau ar 0.5% tan 2016 o ystyried y rhagolwg llwm am dwf economaidd a'r estyniad o fesurau llym a gyhoeddwyd yn Natganiad y Canghellor yn yr hydref. Hyd nes y ceir datrysiad credadwy i'r problemau sy'n llechu yn Ardal yr Ewro – a bydd y datrysiad hwnnw angen uniad cyllidol ar raddfa eang sydd yn wynebu sawl rhwystr gwleidyddol arwyddocaol – yna bydd statws diogel y DU a'r annhebygolrwydd o gynnydd mewn cyfraddau llog swyddogol yn parhau i gyfuno i gefnogi'r thema o fewn y rhagolwg.

3.2 Mae'r rhagolygon economaidd a chyfraddau llog canlynol wedi'u darparu gan ymgynghorydd rheolaeth trysorlys y Cyngor, Arlingclose Ltd. Bydd y Cyngor yn ail werthuso ei strategaethau o dro i dro mewn ymateb i ddigwyddiadau economaidd, gwleidyddol a chyllidol.

| | Mar-13 | Jun-13 | Sep-13 | Dec-13 | Mar-14 | Jun-14 | Sep-14 | Dec-14 | Mar-15 | Jun-15 | Sep-15 | Dec-15 | Mar-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Official Bank Rate | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | | | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 |
| Central case | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 |
| Downside risk | | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 |
| 3-month LIBID | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 |
| Central case | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.45 | 0.45 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.55 | 0.55 | 0.55 | 0.60 | 0.60 |
| Downside risk | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 |
| 1-yr LIBID | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 |
| Central case | 0.85 | 0.90 | 0.95 | 0.95 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.10 | 1.10 | 1.10 | 1.10 | 1.10 |
| Downside risk | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 |
| 5-yr gilt | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 |
| Central case | 0.95 | 0.95 | 0.95 | 0.95 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.10 | 1.10 | 1.10 | 1.20 | 1.20 |
| Downside risk | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 |
| 10-yr gilt | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.75 | 0.75 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 |
| Central case | 2.00 | 2.00 | 2.05 | 2.05 | 2.05 | 2.05 | 2.10 | 2.10 | 2.10 | 2.20 | 2.20 | 2.20 | 2.20 |
| Downside risk | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 |
| 20-yr gilt | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 |
| Central case | 2.90 | 2.90 | 2.90 | 2.90 | 3.00 | 3.00 | 3.00 | 3.00 | 3.10 | 3.10 | 3.10 | 3.10 | 3.10 |
| Downside risk | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 |
| 50-yr gilt | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 0.75 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 |
| Central case | 3.35 | 3.35 | 3.35 | 3.40 | 3.40 | 3.40 | 3.50 | 3.50 | 3.50 | 3.50 | 3.60 | 3.60 | 3.60 |
| Downside risk | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 |

Tybiaethau Sylfaenol:

- Mae'n annhebyg y bydd tyfiant y DU yn codi uwchben y tueddiad diweddar, hyd y gellir rhagweld. Roedd GDP Chwarter 3 yn gryf sef 0.9% ond nid yw'r momentwm hwn yn debyg o barhau yn Chwarter 4 nac yn ystod 2013. Nid yw'r ail-falansio oddi wrth dreuliant a yrrwyd gan y sector cyhoeddus i fuddsoddi gan y sector breifat wedi ei wireddu eto a does dim arwyddion mawr o dwf cynhyrchiant. Mae cyfyngu pellach yn ardal yr Ewro, gan gynnwys economi cryf yr Almaen, a rhagolwg twf araf yn yr economïau allddod (Brasil/Mecsico/India) yn gwaethygu'r gwendid.
- Mae Chwyddiant Prisiau Defnyddwyr (CPI) wedi gostwng i 2.7% o'r brig o 5.2%. Mae'n debygol y bydd cyfnewidioldeb mewn prisiau nwyddau yn effeithio ar y CPI yn y dyfodol agos a disgwylir y bydd ei ostyngiad tuag at y targed o 2% yn arafach na'r hyn a amcangyfrifwyd. Rhagwelir i wir dyfiant cyflogau (h.y. ar ôl chwyddiant) aros yn wan.
- Mae'r rhagolwg cyllidol ar gyfer gostyngiad yn y diffyg strwythurol a sefydlogi'r lefelau dyled yn dal yn heriol iawn. Credadwyaeth wannach i'r DU sydd yn ffrwyno'i lefelau dyled yn creu risg i'r statws AAA, ond mae hanes diweddar (UD, Ffrainc) yn awgrymu nad yw gwerthiant giltiau yn ddilyniant awtomatig.
- Mewn absenoldeb gostyngiad annisgwyl mawr mewn tyfiant, maen tebyg arhosir pryniannau ased (Quantitative Easing) ar £375bn am rŵan. Mae'r argaeledd benthyciadau banc rhatach ac ar ôl hynny ar gyfer cyrff corfforaethol trwy'r Cynllun Benthyca i Ariannu yn ffactor cefnogol.
- Mae'r newid mewn arweiniad cyfraddau'r Gronfa Ffederal yr UD o arwydd seiliedig ar ddyddiad i drothwyon economaidd (6.5% diweithdra, tafluniad chwyddiant 1 - 2 flynedd i aros o dan 2.5%, disgwyliadau tymor hirach ar gyfer chwyddiant yn aros yn sefydlog) yn debyg i gynyddu ansicrwydd y farchnad yn sgil rhyddhadau data cyflogaeth yr UD gor-cyfnewidiol.
- Mae cynnydd araf yn ardal yr Ewro wedi cwtogi rhywfaint o'r risgiau ar hyn o bryd, er bod y gwledydd ymylol yn parhau i ymdrechu i oroesi'n ariannol. Mae uniad bancio a chyllidol cyflawn yn dal i fod rhai blynyddoedd i ffwrdd.

- Yn yr UD, mae’r materion fel toriadau gwariant, lleihau’r diffyg cyllidebol a chodi nenfwd dyled y wlad yn dal heb eu datrys. Gall diffyg i’w datrys erbyn Mawrth 2013 arwain at wrthdaro eto a pheryglu is-raddiad i gyfraddiad credyd sofren yr UD gan un neu fwy asiantaeth.
- Gellir gwrthdroi teimlad risg y farchnad o’r sefyllfa gyfredol “risg ymlaen” i “risg i ffwrdd” gan sbardun o ddigwyddiadau economaidd a/neu wleidyddol - etholiadau Eidaleg ac Almaeneg gerllaw, cyfwng nenfwd dyled y UD, anhawster o gwmpas cymorthdalu Cyprus, a haint yn dychwelyd i boeni’r cenhedloedd Ewropeaidd ymylol - a chreu anweddolrwydd eto mewn giltiau a bondiau sofren.

**4. Strategaeth Fenthyca - Ddim yn berthnasol i’r Gronfa Bensiwn**

**5. Ffynonellau Benthyca a Goblygiadau Portffolio - Ddim yn berthnasol i’r Gronfa Bensiwn**

**6. Aildrefnu Dyledion - Ddim yn berthnasol i’r Gronfa Bensiwn**

**7. Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol**

7.1 Yn unol â’r Canllawiau Buddsoddi a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, ac arfer gorau, prif amcan yr Awdurdod hwn o ran buddsoddi arian cyhoeddus yw diogelu cyfalaf. Mae hylifedd neu hygyrchedd buddsoddiadau’r Awdurdod yn eilaidd, ac mae’r enillion a geir o fuddsoddiadau yn ystyriaeth drydyddol.

7.2 Mae’r Awdurdod a’i ymgynghorwyr yn parhau i fod yn hynod wyliadwrus am arwyddion o gredyd neu farchnad mewn cyfyngder a allai effeithio’n andwyol ar yr Awdurdod.

7.3 Mae buddsoddiadau wedi’u categoreiddio fel rhai “Penodedig” ac “Amhenodedig” o fewn y Canllaw Buddsoddi a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae buddsoddiadau penodedig yn fuddsoddiadau sterling gydag aeddfedrwydd o flwyddyn ar y mwyaf. Maent hefyd yn cwrdd â’r “ansawdd credyd uchel” fel y’i pennwyd gan y Cyngor, ac ni ystyrir hwy fel buddsoddiadau gwariant cyfalaf mewn cyfraith statud. Buddsoddiadau amhenodedig, i bob pwrpas, yw popeth arall.

7.4 Mae’r mathau o fuddsoddiadau y bydd y Cyngor yn eu defnyddio, a p’un a ydynt yn rhai penodedig neu amhenodedig, fel a ganlyn:

**Tabl 2: Buddsoddiadau Penodedig ac Amhenodedig**

| **Buddsoddiad** | **Penodedig** | **Amhenodedig** |
|---|---|---|
| Cyfleuster Adneuon yr Asiantaeth Rheoli Dyledion (DMADF) | ✓ | ✗ |
| Cronfeydd Marchnad Arian statws AAA | ✗ | ✓ |
| Biliau Trysorlys | ✓ | ✗ |
| Biliau’r Awdurdod Lleol | ✓ | ✗ |
| Adneuon cyfnod penodol gydag awdurdodau lleol eraill y DU | ✓ | ✓ |
| Adneuon cyfnod penodol gyda banciau a chymdeithasau | ✓ | ✓ |
| Tystysgrif adneuon gyda banciau a chymdeithasau adeiladu | ✓ | ✓ |
| Giltiau | ✓ | ✓ |
| Bondiau wedi eu dyroddi gan fanciau datblygu amlochrog | ✓ | ✓ |
| Bondiau Corfforaethol | ✓ | ✓ |
| Cynlluniau Marchnad Arian a Buddsoddi ar y Cyd eraill | ✓ | ✓ |
| Papur Masnachol | ✓ | ✗ |
| Buddsoddiadau gyda Darparwyr Cofrestredig | ✓ | ✓ |
| Buddsoddiadau gyda sefydliadau nad yw’n cwrdd â’r meini prawf buddsoddi penodedig (yn amodol ar asesiad credyd allanol) | ✗ | ✓ |
| Benthyciadau Busnes i Gwmnïau Lleol (fel y cytunwyd gan y cynllun Cronfa Benthyciadau Lleol)* | ✗ | ✓ |

** Cymeradwyir y benthyciadau trwy broses amlinellir isod. Nid yw arfarniad o’r Benthyciadau Busnes yn rhan o’r cyngor na'r gwasanaethau a ddarparir gan ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor.*

7.5 Mae Darparwyr Cofrestredig wedi’u cynnwys mewn buddsoddiadau penodedig ac amhenodedig ar gyfer 2013/14. Bydd buddsoddiadau gyda Darparwyr Cofrestredig yn cael eu dadansoddi ar sail unigol ac yn cael eu trafod gydag Arlingclose cyn buddsoddi.

7.6 Cynhwysir buddsoddiadau gyda sefydliadau eraill fel categori amhenodedig ar gyfer 2013/14. Byddai hyn yn cynnwys cyfleuon buddsoddi gyda mentrau bach a chanolig a busnesau eraill dros y DU. Oherwydd canfyddir risg credyd uwch gyda mentrau llai, mae buddsoddiadau o’r fath yn gallu darparu cyfradd o ddychweliadau sylweddol uwch. Ymgymerir ag asesiad credyd allanol a cheisio am gyngor gan ymgynghorwr Rheolaeth Trysorlys y Cyngor (pan ar gael) cyn gwneud unrhyw benderfyniad buddsoddi.

7.7 Y statws credyd isafswm ar gyfer cyrff nad ydynt yn y DU yw AA+ (neu gyfwerth). Y statws isafswm tymor hir i wrthbartïon ar gyfer buddsoddiadau penodedig yw A- (neu gyfwerth). Fel nodwyd mewn buddsoddiadau amhenodedig yn Atodiad C, bydd gan y Pennaeth Cyllid ddisgresiwn i wneud buddsoddiadau gyda gwrthbartïon nad ydynt yn bodloni’r meini prawf penodedig ar gyngor Arlingclose.

Rhestrir y nodweddion credyd eraill, yn ychwanegol i'r statysau credyd, y mae'r Cyngor yn eu monitro yn y Dangosydd Darbodus ar Risg Credyd (DD 11, tudalen 16).

Gellir atal neu gael gwared ar unrhyw sefydliad sy'n peri pryder drwy unrhyw un o'r risgiau uchod. Mae statysau credyd yn cael eu monitro'n benodol gan y Cyngor o leiaf bob mis, er cyfathrebir unrhyw newidiadau i gyfraddiadau sefydliadau ar restr gwrthbartion y Cyngor gan yr Ymgynghorwyr Trysorlys fel maent yn digwydd. Pryd bydd y Cyngor yn derbyn arweiniad gan Arlingclose ar newidiadau mewn statysau a'r camau priodol i'w cymryd bydd hyn yn cael ei weithredu. Gweler rhestr o wrthbartïon sydd yn cyrraedd y meini prawf ar hyn o bryd yn **Atodiad C**.

Ar gyfer buddsoddiadau penodedig, mae'n parhau'n bolisi gan y Cyngor i wneud eithriadau i bolisi gwrthbarti a ffurfiwyd o gwmpas statysau credyd, ond mae hyn yn destun amodau ac yn amodol ar gyfeiriad. Golygai hyn gall sefydliad sy'n cwrdd â'r meini prawf gael ei atal, ond ni fydd sefydliadau nad ydynt yn cwrdd â'r meini prawf yn cael eu hychwanegu.

Mae'r Cyngor wedi sefydlu Cronfa Benthyciadau Lleol, fydd yn rhoi benthyciadau i fusnesau lleol. Mae'r buddsoddiadau hyn wedi'u cynnwys yn y Buddsoddiadau Amhenodedig yn y tabl uchod, a byddant am uchafswm o 10 mlynedd. Bydd cyfanswm y gronfa ar gyfer buddsoddiadau o'r fath yn tua £3 miliwn. Ni fydd ceisiadau am fenthyciadau dan y cynllun hwn yn rhan o'r asesiad credyd arferol i ddibenion buddsoddiadau rheolaeth trysorlys, ond yn hytrach byddant yn cael eu hasesu drwy benodi ymgynghorwyr, a'r Panel Buddsoddi ar gyfer y cynllun fydd yn gwneud unrhyw benderfyniad i fenthyg yr arian.

7.8 **Bancwr y Cyngor –** Mae'r Cyngor yn bancio gyda Barclays Bank plc. Ar hyn o bryd, mae'n cwrdd â'r statws credyd isafswm o A- (neu gyfwerth) i'r tymor hir. Hyd yn oed os yw'r statws credyd yn disgyn islaw meini prawf isafswm y Cyngor, byddwn yn parhau i'w ddefnyddio i ddibenion hylifedd byrdymor (buddsoddiadau dros nos a phenwythnos) a threfniadau parhad busnes.

## 8. Strategaeth Fuddsoddi

8.1 Gyda chyfraddau llog tymor byr yn isel ers tro, bydd strategaeth fuddsoddi fel arfer yn arwain at ymestyn cyfnodau buddsoddi, os yw llif arian yn caniatáu, er mwyn cael cyfraddau uwch o enillion derbyniol ar ôl haddasu yn ôl risg (risk adjusted). Y broblem yn yr hinsawdd bresennol yw dod o hyd i wrthbarti i fuddsoddi lle ceir lefelau derbyniol o risg gwrthbarti.

8.2 Er mwyn amrywio portffolio buddsoddi sydd wedi'i fuddsoddi mewn arian yn bennaf, fe wneir y buddsoddiadau gydag ystod o wrthbartïon buddsoddi cymeradwy dros ystod o gyfnodau aeddfedu. Gosodir lefelau uchaf o fuddsoddi gyda phob gwrthbarti, er mwyn sicrhau cael amrywiaeth darbodus.

8.3 Caiff cronfeydd marchnad arian (MMF) eu defnyddio hefyd, ond mae arfer dda wrth reoli'r trysorlys yn dod yn gyntaf, a thra bod MMF yn rhoi amrywiaeth dda, bydd y Cyngor hefyd yn ceisio defnyddio mwy nag un MMF. Bydd y Cyngor hefyd yn cyfyngu ar ei ddefnydd o MMF sy'n rheoli lefelau is o arian, ac ni fydd yn buddsoddi mwy na 0.5% o werth ased net yr MMF. Pan yn buddsoddi mewn MMF y Llywodraeth, bydd y Cyngor yn sicrhau na fydd y buddsoddiad ym mhob un Cronfa yn fwy na 2% o werth ased net y Gronfa.

## 9. Polisi ar Ddefnydd ar Ddeilliadau Ariannol

9.1 Mae’r Localism Act 2011 yn cynnwys cymhwyster hawl cyffredinol sydd yn diddymu’r sefyllfa gyfreithiol ansicr dros ddefnydd deilliadau ariannol arunig (h.y. rheiny sydd heb eu mewnosod mewn benthyciad neu fuddsoddiad) ar gyfer awdurdodau lleol Lloegr. Er nad yw’r newid hon yn berthnasol i Gymru, mae Cod diweddaraf CIPFA yn gofyn i awdurdodau datgan yn glir eu polisi ar ddefnydd o ddeilliadau yn y strategaeth flynyddol.

9.2 Yn absenoldeb unrhyw hawl cyfreithiol, polisi'r Cyngor yw peidio ymgymryd â thrafodaethau deilliadau ariannol arunig fel cyfnewidiadau, blaen gytundebau, blaen drafodion ariannol ac opsiynau. Nid yw’r polisi hon yn berthnasol i ddeilliadau wedi eu mewnosod mewn cytundebau eraill, er bydd y risgiau ynghlwm yn cael eu rheoli o fewn y strategaeth rheolaeth risgiau cyffredinol.

## 10. Datganiad MRP 2013/14 - Ddim yn berthnasol i’r Gronfa Bensiwn

## 11. Monitro ac Adrodd ar Alldro’r Trysorlys a Dangosyddion Darbodus

11.1 Bydd y Pennaeth Cyllid yn adrodd i’r Pwyllgor Archwilio ar weithgarwch / perfformiad rheolaeth trysorlys a Dangosyddion Perfformiad bob chwe mis yn erbyn y strategaeth a gymeradwywyd ar gyfer y flwyddyn. Bydd y Cyngor yn cynhyrchu adroddiad alldro ar ei weithgarwch trysorlys ddim hwyrach na 30 Medi ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

Y Pwyllgor Archwilio fydd yn gyfrifol am graffu’r gweithgarwch a’r arferion rheoli trysorlys.

## 12. Eitemau Eraill

### 12.1 Hyfforddiant

Yn unol â Chod Ymarfer CIPFA, bydd y Pennaeth Cyllid yn sicrhau bod pob aelod sydd â chyfrifoldebau rheolaeth trysorlys, yn cynnwys craffu’r swyddogaeth rheolaeth trysorlys, yn derbyn hyfforddiant priodol sy’n berthnasol i’w hanghenion, a’u bod yn deall eu rolau a’u cyfrifoldebau.

### 12.2 Ymgynghorwyr Rheolaeth Trysorlys

Mae’r Cyngor yn defnyddio Arlingclose fel Ymgynghorwyr ar gyfer y gwasanaethau canlynol:

- Cyngor credyd
- Cyngor buddsoddi
- Cyngor technegol
- Rhagolygon economaidd a chyfraddau llog.
- Gweithdai a digwyddiadau hyfforddiant.

Mae’r Awdurdod yn cynnal ansawdd y gwasanaeth gyda’i ymgynghorwyr drwy gynnal cyfarfodydd chwarterol a thendro o bryd i’w gilydd.

**ATODIAD B**

**Dangosyddion Darbodus 2013/14 – 2015/16 - Ddim yn berthnasol i'r Gronfa Bensiwn**

**ATODIAD C**

## RHESTR O WRTHBARTÏON SYDD YN CWRDD A'R MEINI PRAWF AR HYN O BRYD

| Gwlad | Gwrthbartïon | Terfyn uchaf y Buddsoddiad £m | Uchafswm cyfnod y Benthyciad |
|---|---|---|---|
| Y DU | DMADF, DMO | Dim terfyn | Dim terfyn |
| Y DU | Awdurdodau Lleol y DU | £30m (£30m) | 2 flynedd |
| Y DU | Santander UK Plc (Banco Santander Group) | £12m (£18m) | 2 flynedd |
| Y DU | Bank of Scotland (Lloyds Banking Group) | £12m (£18m) | 2 flynedd |
| Y DU | Lloyds TSB (Lloyds Banking Group) | £12m (£18m) | 2 flynedd |
| Y DU | Barclays Bank Plc | £12m (£18m) | 2 flynedd |
| Y DU | Clydesdale Bank (National Australia Bank Group) | £12m (£18m) | 2 flynedd |
| Y DU | HSBC Bank Plc | £12m (£18m) | 2 flynedd |
| Y DU | Nationwide Building Society | £12m (£18m) | 2 flynedd |
| Y DU | NatWest (RBS Group) | £12m (£18m) | 2 flynedd |
| Y DU | Royal Bank of Scotland (RBS Group) | £12m (£18m) | 2 flynedd |
| Y DU | Standard Chartered Bank | £12m (£18m) | 2 flynedd |
| Awstralia | Australia and NZ Banking Group | £12m (£18m) | 2 flynedd |
| Awstralia | Commonwealth Bank of Australia | £12m (£18m) | 2 flynedd |
| Awstralia | National Australia Bank Ltd (National Australia Bank Group) | £12m (£18m) | 2 flynedd |
| Awstralia | Westpac Banking Corp | £12m (£18m) | 2 flynedd |
| Canada | Bank of Montreal | £12m (£18m) | 2 flynedd |
| Canada | Bank of Nova Scotia | £12m (£18m) | 2 flynedd |
| Canada | Canadian Imperial Bank of Commerce | £12m (£18m) | 2 flynedd |
| Canada | Royal Bank of Canada | £12m (£18m) | 2 flynedd |
| Canada | Toronto-Dominion Bank | £12m (£18m) | 2 flynedd |
| Y Ffindir | Nordea Bank Finland | £12m (£18m) | 2 flynedd |
| Y Ffindir | Pohjola | £12m (£18m) | 2 flynedd |
| Ffrainc | BNP Paribas | £12m (£18m) | 2 flynedd |
| Ffrainc | Credit Agricole CIB (Credit Agricole Group) | £12m (£18m) | 2 flynedd |
| Ffrainc | Credit Agricole SA (Credit Agricole Group) | £12m (£18m) | 2 flynedd |
| Ffrainc | Société Générale | £12m (£18m) | 2 flynedd |
| Yr Almaen | Deutsche Bank AG | £12m (£18m) | 2 flynedd |
| Yr Iseldiroedd | ING Bank NV | £12m (£18m) | 2 flynedd |
| Yr Iseldiroedd | Rabobank | £12m (£18m) | 2 flynedd |
| Yr Iseldiroedd | Bank Nederlandse Gemeenten | £12m (£18m) | 2 flynedd |
| Singapore | DBS Bank Ltd | £12m (£18m) | 2 flynedd |
| Singapore | Oversea-Chinese Banking Corporation (OCBC) | £12m (£18m) | 2 flynedd |
| Singapore | United Overseas Bank (UOB) | £12m (£18m) | 2 flynedd |
| Sweden | Svenska Handelsbanken | £12m (£18m) | 2 flynedd |
| Y Swistir | Credit Suisse | £12m (£18m) | 2 flynedd |
| UDA | JP Morgan | £12m (£18m) | 2 flynedd |

1. Mae terfyn o £18m ar fanciau sydd yn yr un grŵp bancio.
2. Mae'r cyfyngiadau amser yn y rhestr uchod yn perthyn i adneuon cyfnod penodol. Mae offerynnau cyfnewidiadwy / masnachiadwy fel CD's gyda therfyn o 5 mlynedd. Mae'r cyfyngiadau amser argymhellir yn gyfredol yn sylweddol is na hyn, ond mae'r cyfyngiadau a amlinellir uchod yn rhoi hyblygrwydd i ymateb i'r posibilrwydd o sefydlogiad neu welliant mewn amgylchiadau credyd ac economaidd yn 2013/14.
3. Gallai'r rhestr hon newid, er enghraifft, os bydd gwrthbarti / gwlad yn cael eu huwchraddio, a'u bod yn bodloni ein teclynnau teilyngdod credyd. Yn yr un modd, os bydd gwrthbarti'n cael ei israddio, gellir cwtogi'r rhestr hon.

## Buddsoddiadau Amhenodedig

| Offeryn | Uchafswm Aeddfedrwydd | Uch £m o'r portffolio | Gwariant cyfalaf? | *Esiamplau* |
|---|---|---|---|---|
| Adneuon tymor penodol gyda banciau a chymdeithasau adeiladu, sydd yn cwrdd â'r meini prawf penodol | 2 flynedd | £12m fesul gwrthbarti | Na | |
| Adneuon tymor gydag awdurdodau lleol | 2 flynedd | £12m fesul gwrthbarti | Na | |
| CD's ac offerynnau cyfnewidiadwy gyda banciau, cymdeithasau adeiladu sydd yn cwrdd â'r meini prawf penodol* | 5 mlynedd | £12m fesul gwrthbarti | Na | |
| Buddsoddiadau gyda banciau, cymdeithasau adeiladu a sefydliadau eraill sydd ddim yn cwrdd â'r meini prawf penodol* (yn amodol ar asesiad credyd allanol) (gydag awdurdod y swyddog a151) | 3 mis | £5m fesul gwrthbarti | Na | *Banc yn disgyn o dan y meini prawf penodol e.e. Co-op*<br><br>*Mentrau bach a chanolig (SME's)* |
| | 1 flwyddyn | £1m fesul gwrthbarti | Na | |
| | 5 mlynedd | £100k fesul gwrthbarti | Ie / Na | |
| | | Yn amodol ar gyfanswm o £20m i gyd | | |
| Adneuon gyda darparwyr cofrestredig | 5 mlynedd | £5m | Na | *Housing Associations, Registered Social Landlords* |
| Giltiau | 6 mlynedd | Dim cyfyngiad | Na | *DMO* |
| Bondiau a gyflwynir gan fanciau datblygu amlochrog | 6 mlynedd | £12m | Na | *EIB Bonds, Council of Europe Bonds etc.* |
| Bondiau sy'n defnyddio Sterling gan lywodraethau sofren y tu allan i'r DU | 6 mlynedd | £12m | Na | |
| Cronfeydd Arian Marchnad a Chynlluniau Buddsoddi ar y Cyd | Hylifedd dyddiol | £8m fesul enw<br><br>Cyfanswm o £37.5m | Ie | *Ignis Sterling Liquidity Fund, Federated Prime Rate Sterling Liquidity Fund, RBS Global Treasury Funds etc.*<br><br>*Investec Target Return Fund; Elite Charteris Premium Income Fund; LAMIT; M&G Global Dividend Fund* |
| Offerynnau corfforaethol a dyled a gyflwynir gan gyrff corfforaethol a phrynwyd o 01/04/12 ymlaen. | 2 flynedd | £5m | Na | |
| Cynlluniau Buddsoddi Cyfunol (cronfeydd wedi eu cronni) nad yw'n cwrdd â'r diffiniad o gynlluniau buddsoddi cyfunol yn WSI 2004 No 1010 (W.107) neu WSI 2007 No 1051 (W.108) | Nad yw'r cronfeydd yma gyda dyddiad aeddfedrwydd | £5m | Ie / Na | *Way Charteris Gold Portfolio Fund; Lime Fund* |
| Adneuon gyda chyrff eraill mewn perthynas i gynlluniau adnau morgeisi (gydag awdurdod y swyddog a151 mewn ymgynghoriad gyda'r ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor) | 7 mlynedd | £1m | Na | *LAMS* |
| Benthyciadau busnes i gwmnïau lleol** | 10 mlynedd | £3m | Ie / Na | |

* Byddwn yn buddsoddi yn yr offerynnau hyn yn unol â chyngor ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor.

** Rhoddir cymeradwyaeth i'r benthyciadau hyn yn unol â'r broses y manylir arni ym mharagraff olaf rhan 7.7 o Atodiad A. Nid yw gwerthuso'r Benthyciadau Busnes yn rhan o'r cyngor nac o'r gwasanaethau a dderbynnir gan ymgynghorwr trysorlys y Cyngor.

Ceir uchafswm o 75% o bortffolio buddsoddi'r Cyngor mewn buddsoddiadau amhenodedig.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| **DYDDIAD** | **22 MAWRTH 2013** |
| **PWRPAS** | **DIWEDDARU'R PWYLLGOR AR Y PROSIECT CYDWEITHIO PENSIYNAU CYMRU** |
| **TEITL** | **CYNLLUNIAU PENSIWN LLYWODRAETH LEOL CYMRU - GWEITHIO GYDA'N GILYDD** |
| **AWDUR** | **CAROLINE ROBERTS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol o'r prosiect a ymgymerwyd gan Is-grŵp Pensiynau'r Gymdeithas Trysoryddion Cymru a chylchredwyd copi i aelodau'r Pwyllgor ar 1af Mawrth 2013. Mae'r adroddiad allan i ymgynghoriad gyda'r holl fuddgyfranogwyr gan gynnwys yr holl gyflogwyr yng nghronfeydd llywodraeth leol Cymru.

## 2. YMGYNGHORIAD

**2.1** Mae'r prif argymhellion fel a ganlyn:

- Creu Achos Busnes Llawn am ddull buddsoddi cyffredin.
- Creu strwythur llywodraethu priodol ac ymatebol i yrru a rheoli cynlluniau cydweithio yn y dyfodol.
- Adeiladu ar y cydweithio sy'n digwydd ar hyn o bryd a gwella cyflawniad, cysondeb ac effeithlonrwydd gweinyddiaeth.

**2.2** Atodir copi o'r cwestiynau ymgynghori fel Atodiad A.

## 3. ARGYMHELLIAD

**3.1** Bydd angen i'r Pwyllgor penderfynu ei ymateb i'r adroddiad. Argymhellir disgwyl tan fod y canlyniadau o'r ymgynghoriad a'r argymhellion canlynol o'r Is-grŵp Pensiynau ar gael cyn gwneud penderfyniad.

**ATODIAD A**

**Cronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol Cymru – Gweithio gyda'n Gilydd Ymgynghoriad ar yr Adroddiad Interim**

Mae'r Adroddiad Interim yn gosod y prif gasgliadau ac argymhellion sy'n codi o'r gwaith ymchwil a gynhaliwyd fel rhan o'r Prosiect Cydweithio hwn. Mae'r Bwrdd Prosiect yn awyddus i gasglu barn budd-ddeiliaid allweddol ar yr argymhellion hyn, a byddai'n croesawu derbyn adborth drwy'r arolwg ymgynghori hwn. Os oes gennych unrhyw ymholiadau cysylltwch â: Keely Jones (ffôn: 029 20909507, e-bost: keely.jones@dataunitwales.gov.uk) – i gael mynediad at yr arolwg ar-lein a'i ddefnyddio, neu i wneud cais am gopi papur. Mari Thomas (e-bost: mari.thomas@wlga.gov.uk) – cynnwys yr ymgynghoriad.

I gychwyn yr arolwg, pwyswch 'Nesaf'.

**<u>Adran 1: Cwestiynau Cychwynnol</u>**

1: Ym mha gapasiti ydych chi'n ymateb i'r ymgynghoriad hwn?

Ticiwch un opsiwn yn unig:

- ❒ Awdurdod sy'n Gweinyddu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL)
- ❒ Cyngor Sir/Cyngor Bwrdeistref Sirol (Awdurdod nad yw'n gweinyddu CPLlL)
- ❒ Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru
- ❒ Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd yng Nghymru
- ❒ Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yng Nghymru
- ❒ Cyrff eraill ar yr atodlen a chyrff eraill a ganiateir yn y Cronfeydd CPLlL yng Nghymru
- ❒ Undebau Llafur / Cynrychiolwyr Gweithwyr
- ❒ Corff cenedlaethol (gan gynnwys Llywodraeth Cymru, CLlLC, CIPFA yng Nghymru, Cymdeithas Actiwarïaid Ymgynghorol)
- ❒ Aelod o'r Cynllun / Pensiynwr
- ❒ Arall

1.1: Nodwch os gwelwch yn dda

| |
|---|
| |

2: Dewiswch y gronfa bensiwn mae eich sefydliad chi yn gysylltiedig â hi:

Ticiwch un blwch yn unig

- ❐ Cronfa Bensiwn Gwynedd
- ❐ Cronfa Bensiwn Clwyd (gweinyddir gan Gyngor Sir y Fflint)
- ❐ Cronfa Bensiwn Powys
- ❐ Cronfa Bensiwn Dyfed (gweinyddir gan Gyngor Sir Gaerfyrddin)
- ❐ Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe
- ❐ Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf
- ❐ Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg
- ❐ Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen) (gweinyddir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen)
- ❐ Amherthnasol (e.e. os ydych yn ymateb ar ran corff cenedlaethol)

**Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

3: Noda Argymhelliad 1:
*Ni chefnogir yr opsiwn "fel y mae" neu dim newid. Mae angen dull mwy rhagweithiol ar yr amgylchedd pensiwn i reoli safonau gwasanaeth a chostau o fewn CPLlL Cymru.*
A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r argymhelliad hwn?

Ticiwch un blwch yn unig

❐ Cytuno ❐ Anghytuno

4: **Ychwanegwch sylwadau os dymunwch:**

| |
|---|
| |

5: **Noda Argymhelliad 2:**
*Ystyrir bod mwy o gydweithio’n faes ble y gellir gwneud y mwyaf o arbedion tymor hir. Dyma’r opsiwn ble y gellir cyfuno’r cydbwysedd rhwng cyflawni gwasanaeth ac effeithlonrwydd, cost y newid, yr amser a’r adnoddau gyda’i gilydd yn y modd mwyaf effeithiol a dylid mynd ar drywydd hyn.*
**A ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r argymhelliad hwn?**

Ticiwch un blwch yn unig

❒ Cytuno ❒ Anghytuno

6: **Ychwanegwch sylwadau os dymunwch:**

| |
|---|
| |

7: **Noda Argymhelliad 3:**
*Creu achos busnes am ddull buddsoddi cyffredin i gynnwys y nodweddion cyffredin y mae cronfeydd mwy i weld yn elwa ohonynt gyda’r bwriad o’u gweithredu wedi hynny.*
**A ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r argymhelliad hwn?**

Ticiwch un blwch yn unig

❒ Cytuno ❒ Anghytuno

8: **Ychwanegwch sylwadau os dymunwch:**

| |
|---|
| |

9: **Nodwch os gwelwch yn dda a ydych yn cytuno neu’n anghytuno gyda’r agweddau a ganlyn o Argymhelliad 4:**

Ticiwch un blwch yn unig i bob agwedd

Creu strwythur llywodraethu priodol ac ymatebol i yrru a rheoli cynlluniau cydweithio yn y dyfodol yng Nghymru

❐ Cytuno ❐ Anghytuno

Archwilio'r posibilrwydd o gael rhagdybiaethau a safonau ariannu a Phrisio sy'n gyson yn y tymor hir.

❐ Cytuno ❐ Anghytuno

Datblygu safonau gwasanaeth gweinyddu gofynnol i Gymru a fframwaith mesur cytunedig.

❐ Cytuno ❐ Anghytuno

Gwneud y mwyaf o gynlluniau caffael ar y cyd i helpu i sicrhau cysondeb ac arbedion effeithlonrwydd.

❐ Cytuno ❐ Anghytuno

10: **Ychwanegwch sylwadau os dymunwch:**

| |
|---|
| |

11: **Noda Argymhelliad 5:**
*Mae'r cysyniad o uno yn gronfeydd rhanbarthol neu'n un Gronfa Gymreig yn gymhleth a byddai trosglwyddo yn broses gostus a hirwyntog fyddai hefyd yn arwain at golli rheolaeth yn lleol. Gall newid strategaethau ariannu hefyd fygwth sefydlogrwydd a pheri colli atebolrwydd lleol. Tra gallai fod werth ymchwilio ymhellach i hyn yn y dyfodol, ni argymhellir gwaith pellach ar yr adeg hon, yn enwedig lle credir mai'r modd o sicrhau'r enillion mwyaf yw drwy fwy o gydweithio, a dull buddsoddi cyffredin yn benodol.*
**A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r argymhelliad hwn?**

Ticiwch un blwch yn unig

❒ Cytuno ❒ Anghytuno

12: **Ychwanegwch sylwadau os dymunwch:**

**<u>Amdanoch chi</u>**

14: Er dibenion dilysu, a fyddech cystal â darparu eich enw a'ch manylion cyswllt isod os gwelwch yn dda.

Eich enw:

15. Eich rhif ffôn: ________________________

16. Eich cyfeiriad e-bost: ____________________________________________________

17. Os nad ydych yn dymuno i ni gysylltu â chi, ticiwch y blwch hwn: ❒

Diolch.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| **DYDDIAD** | **22 MAWRTH 2013** |
| **PWRPAS** | **PENDERFYNU AR AELODAETH YNG NGHRONFA BENSIWN GWYNEDD AR GYFER GYRFAOEDD CYMRU** |
| **TEITL** | **GYRFAOEDD CYMRU** |
| **AWDUR** | **CAROLINE ROBERTS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Roedd strwythur y Gwasanaeth Gyrfaoedd yng Nghymru ar sail ranbarthol gyda bob ardal yn aelod o'r Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol berthnasol i'w ardal. Roedd Gyrfaoedd Gogledd Orllewin Cymru yn aelod o Gronfa Bensiwn Gwynedd. Penderfynodd Llywodraeth Cymru ffurfio Gyrfa Cymru o'r cyrff rhanbarthol blaenorol a ddaeth yn weithredol ar 1af Ebrill 2012. Ar hyn o bryd mae'r aelodaeth o'r Gronfa Bensiwn yn parhau ar sail yr hen strwythur.

**1.2** Bydd y cwmni newydd yn aelod o un o'r Cronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol bresennol yng Nghymru. Nid yw'r mater o ba gronfa fydd yn derbyn Gyrfa Cymru fel cyflogwyr wedi cael ei datrys eto. Y prif reswm nad oes cytundeb yw'r diffygion sy'n bodoli ym mhob cronfa mewn perthynas i'r cyrff rhanbarthol blaenorol a'r amharodrwydd i gymryd y diffyg yn y dyfodol. Mewn cydnabyddiaeth mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno cymryd 'perchnogaeth' dros y corff newydd os gellir cytuno ar y sefyllfa pensiynau.

## 2. CRYNODEB RISGIAU

**2.1** Bydd y Gronfa Bensiwn sydd yn derbyn Gyrfa Cymru fel cyflogwr yn wynebu nifer o risgiau. Mae'r prif risgiau fel a ganlyn:

- Sicrwydd cyllido ar gyfer Gyrfa Cymru yn y dyfodol. Mae'r Llywodraeth Cymru yn darparu'r cyllid ar hyn o bryd ac er y byddent yn cymryd cyfrifoldeb dros y cwmni nid yw hyn yn gwarantu cyllid yn y dyfodol.

- Gallai Llywodraeth Cymru penderfynu terfynu Gyrfaoedd Cymru yn y dyfodol a gadael diffyg sylweddol i'w gyllido gan y Gronfa Bensiwn a'r cyflogwyr eraill.

- Trosglwyddir y diffygion o'r cyn rhanbarthau o'u cronfeydd pensiwn cyfredol i'r Gronfa newydd ac er derbyniwyd taliad gan bob cronfa fel

rhan-setliad o'r diffygion yma, mae'r symiau yn dal yn sylweddol. Wrth asesu'r diffygion yma mae actiwarïaid gwahanol yn defnyddio tybiaethau gwahanol. Wrth ddefnyddio tybiaethau cyfredol Cronfa Bensiwn Gwynedd er mwyn prisio'r diffygion bydd y symiau yn codi gan fod Gwynedd yn defnyddio dull mwy pwyllog na'r mwyafrif o gronfeydd eraill yng Nghymru.

- Disgwylir i'r trosglwyddiad digwydd erbyn 1af Ebrill 2013 sydd yn amserlen fer iawn yn ystod cyfnod pan ymgymerir â gwaith ychwanegol sylweddol gan yr uned gweinyddiaeth mewn perthynas â'r gweithrediad system gyfrifiadurol newydd a darpariaeth gwybodaeth ar gyfer prisiad actiwarïaid 2013.

- Mae pencadlys y cwmni newydd yn bell o Wynedd a byddai'n gallu effeithio'r gallu i fynychu cyfarfodydd cyflogwyr a chyflwyniadau yng Nghaernarfon.

**2.2** Er mwyn lliniaru risgiau ariannol bydd yn ofynnol cael bond gan y cwmni newydd. Cytunir cyfrifiad y bond gyda'r gronfa bensiwn sydd yn cymryd dros yr ymrwymiadau a adolygir yn gyson er mwyn sicrhau ei fod o'n ddigonol i dalu'r ymrwymiadau. Telir cost y bond gan y cwmni ac mae angen ei gynnwys mewn cynllun ariannol y cwmni.

## 3. ARGYMHELLIAD

**3.1** Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y risgiau a'r gostyngiad a amlinellir yn yr adroddiad hwn a phenderfynu os dymunir cynnig aelodaeth Cronfa Bensiwn Gwynedd i Gyrfaoedd Cymru.